

Ein Gwlad

Darlleniad: Llyfr y Pregethwr 44: 1-15

Creawdwr byd a lluniwr cyfandiroedd, yr hwn yn ei allu a'i ddoethineb a greodd drefn allan o anhrefn, ffurf allan o ddim, a chreadigaeth allan o bosibilrwydd, cydnabyddwn di fel awdur y byd a phob peth sy'n ymlusgo ar hyd wyneb daear, fel rhoddwr bywyd yn yr hwn yr ydym yn symud ac yn anadlu.

Ti, O! Dad, yn dy ddoethineb a greodd ddyn ar dy lun dy hun, i deyrnasu ar diroedd a'r hyn oll sydd arnynt. Derbyn ein diolch, felly, am y rhodd o fywyd, ac am gylch y bywyd yna, sef ein gwlad. Diolchwn i ti am harddwch ei mynyddoedd a'i harfordiroedd, ei chreigiau a'i llynnoedd, y llecynnau gogoneddus yna sy'n abl i greu ynom yr ymdeimlad o agosatrwydd atat ti. Y tirwedd sy'n aml iawn yn gyfrwng i'n gwneud ni y bobl ydan ni, gan roi bod i ffrwyth ym meysydd diwylliant a thraddodiadau. Cydnabyddwn gyfoeth cynnyrch y canrifoedd, yn farddoniaeth, yn llenyddiaeth, yn gerddoriaeth, yn orchestion gwleidyddol, yn ddatblygiadau a chynnyrch diwydiannol, ond yn fwy na dim, ein hiaith - cyfrwng ein datgan a'n cyfleu. Gwarchod hi, yn wyneb bygythiadau cenhedloedd eraill, a thywys ni yn ein defnydd ohoni i'r blynyddoedd sydd i ddod.

Cyffeswn ger dy fron gyflwr ein bywydau yn y presennol - sefyllfa'n gwlad a'i phobl. Wrth inni gydnabod y rhodd o iaith a'r hyn oll sy'n deillio ohonom, efallai fod y cyfan wedi mynd i olygu mwy i ni. Y rhodd yn mynd i olygu mwy na'r rhoddwr, a'r greadigaeth wedi mynd i olygu mwy na'r creawdwr. Cyflwynwn i'th ddwylo gyflwr ein gwlad. Cydnabyddwn nad wyt yn cael y lle teilyngaf posibl yn ein bywyd. Gyda thristwch y cydnabyddwn y troi cefn amlwg ar efengyl dy Fab, y troi yma sy'n rhoi bod i'r holl bethau negyddol hynny yn ein hanes. Deisyfwn dy faddeuant, ond ynghlwm wrth y deisyfiad yna erfyniwn hefyd am gymorth ac am nerth. Yn wyneb newidiadau cymdeithasol, wrth i bobl wynebu

temtasiynau'r oes, gweddiwn ar i ti ogoneddu pob ymdrech i gadw'r fflam i losgi. Gweddiwn dros waith yr Eglwys yn ein gwlad, am bregethu'r efengyl, ac am y Cymry sy'n dal i ymateb i alwad a her yr efengyl, ac yn hynny warchod y pethau gorau, y gwirioneddau hynny sydd ohonot ti ac yn rhodd ar ein cyfer ym mherson dy Fab, Iesu Grist. Derbyn, felly, waith dy blant; bydded i ti yn dy drugaredd ddyrchafu'r cyfan a:

‘... deued dydd pan fo awelon Duw
Yn chwythu eto dros ein herwau gwyw
A'r crindir cras dan ras cawodydd nef
Yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo ef,
A'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen
Yn seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen.’ Amen.

Eifion Arthur Roberts